

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN  
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICES BOARD**

**Dydd Gwener, 24 Chwefror 2017**

**10.00am – 12:30pm**

**Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor**

**AGENDA**

<b>Eitem</b>	<b>Materion</b>	<b>Papurau</b>
1.	Croeso, Cyflwyno Aelodau ac Ymddiheuriadau	
2.	Cylch Gorchwyl – eitem sefydlog  <i>Dim newidiadau i'w rhannu</i>	
3.	Cofnodion a Materion yn Codi:  <i>16 Rhagfyr 2016</i>  <i>Nodiadau'r gweithdy 25 Ionawr 2017</i>	<b>Cofnodion</b>  <b>Nodiadau i ddilyn</b>
4.	Cyflwyniad Partneriaid  <i>Parc Cenedlaethol Eryri</i>	<b>Cyflwyniad ar y dydd – Emyr Williams</b>
5.	Asesiad Poblogaeth - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Crynodeb</i></li> <li>• <i>Prif negeseuon</i></li> </ul>	<b>Papur 4A</b>  <b>Cyflwyniad byr – Llio Johnson</b>
6.	Asesiad o Lesiant Lleol  <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Drafft Gwynedd a drafft Ynys Môn i'w cymeradwyo ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad anstatudol – 6 wythnos</i></li> </ul>	<b>Papurau 5A</b>

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN**  
**ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD**

**Dydd Gwener, 24 Chwefror 2017 10.00yb**

**COFNODION**

<b>Presennol</b>	
<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Ffion Johnstone (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Sian Ap Dewi	Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ar ran Siobhan Adams)
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

<b>Yn Mynychu</b>	
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Rhian Bayley-Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Sian Owen	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Elizabeth Woodcock	Myfyriwr PhD
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

<b>Ymddiheuriadau</b>	
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Cymru – ar ran y sector Dai
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Cymru
Cyng. Dyfed Edwards	Cyngor Gwynedd
Sian Purcell	Medrwn Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 2. Cofnodion a Materion yn Codi

Newidiadau i gofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2016 :

- Nododd Simon Smith fod y nifer o danau bwriadol 724 yn ffigwr 2014/15 nid 2013/14

Cadarnhawyd bod gweddill y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Diweddariad cofnodion :

1. Cadarnhawyd fod pecynnau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu dosbarthu trwy e-bost. Er hynny nodwyd fod rhai o'r e-byst wedi eu gwrthod gan systemau IT rhai sefydliadau felly roedd pecynnau papur ar gael os dymunir.
2. Cylch Gorchwyl yn eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
3. Amserlen ymgynghori wedi ei chynnwys ar agenda'r gweithdy mis Ionawr
4. Aelodau wedi cysylltu i gael llyfrynnau
5. Llio Johnson wedi newid pwynt rhif 4 ar agenda'r gweithdy
6. Gohebiaeth wedi ei chydabod ac ymateb wedi cwblhau.

## 3. Cylch Gorchwyl

Dim newidiadau i'w rhannu.

## 4. Cyflwyniad Partneriaid

Cafwyd cyflwyniad gan Emyr Williams ar ran Parc Cenedlaethol Eryri. Diolchodd y Cadeirydd Ffion Johnstone i Emyr am ei gyflwyniad.

Sylwadau:

- Cwestiynwyd effaith y toriadau staff - Nododd Emyr eu bod wedi colli chwarter o'r staff dros y 3 mlynedd diwethaf. Er hynny, mae'r Parc dal i gwblhau'r un lefel o waith ond gyda llai o staff. Torri'r tîm rheoli a hefyd cau 2 ganolfan gwybodaeth yw'r unig newid sydd wedi bod ond nid roedd hyn wedi effeithio'r cyhoedd oherwydd roedd canolfan gwybodaeth arall ar gael yn yr ardal. Nododd hefyd fod y Parc nawr yn defnyddio contractwyr lleol i gwblhau gwaith yn lle gweithwyr stad.
- Roedd canmol i'r gwaith gyda phobl anabl a nam golwg. Cytunwyd fod cyfle i bartneriaid gydweithio yn fwy. Trafodwyd gwneud gwaith mapio ar y gwasanaethau sydd ar gael gyda theuluoedd ac anabledau ac yna gwneud dadansoddiad o'r bylchau.

1	Gweithred:	Copiau o'r cyflwyniad ar gael gan Emyr os dymunir
<b>5. Aseiad Poblogaeth – Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant</b>		

Cafwyd cyflwyniad gan Llio Johnson ar yr Aseiad Poblogaeth diweddar. Paratowyd y cyflwyniad gan y grŵp rhanbarthol fu'n gyfrifol am yr aseiad.

Sylwadau :

- Cwestiynwyd amserlen yr Aseiad Poblogaeth mewn perthynas â'r Aseiad Llesiant. Nodwyd nad yw'r amserlen yn ddelfrydol ond fod rhaid ystyried amcanion yr Aseiad Poblogaeth gyda'r rhai Aseiad Llesiant.
- Mynegodd sawl aelod o'r Bwrdd fod bylchau o fewn data'r Aseiad Poblogaeth –a bod yr aseiad yn cyflwyno gwybodaeth sydd eisoes ar gael a'r un themâu.
- Cytunwyd bod rhaid cael blaenoriaethau Gwynedd a Môn yn eglur ac nid y data rhanbarthol yn unig. Nodwyd ei bod yn bwysig edrych ar y data rhanbarthol a lleol gan wneud yn siŵr nad oes ddyblygu.

<b>6. Aseiad o Lesiant Lleol</b>
----------------------------------

Rhannwyd testun yr Aseiad Drafft gydag aelodau'r Bwrdd. Nododd Llio Johnson mai'r testun yn unig oedd wedi ei rannu gyda'r Aelodau ac y byddai'r gwaith dylunio yn digwydd yn dilyn cytundeb ar y testun. Nodwyd fod yr aseiad wedi ei lunio yn syml ac yn ddarllenadwy a hynny yn dilyn yr ymateb positif a gafwyd am y llyfrynnau ardal. Fe fydd yr aseidiadau drafft yn cael eu rhannu ar y wefan ac fe fydd dogfennaeth gefndirol ar y wefan yn cynnwys y llyfrynnau ardal, canlyniadau'r holiaduron, pecynnau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r tabl data yn llawn.

Sylwadau:

Cytunodd Aelodau'r Bwrdd fod y diwyg yma yn wahanol i ddogfennau byrddau eraill ond mewn ffordd positif. Roedd pawb o'r farn bod fformat yr aseiad yn golygu y byddai gan fwy o bobl gyda diddordeb ynddo.

Nodwyd bod angen

- sicrhau ein bod yn cydnabod y newidiadau i'r dyfodol yn sgil y bwriad i adael yr Undeb Ewropeaidd a datblygiad Wylfa Newydd
- Tynnu sylw at dlodi tanwydd - mae'r ffigwr lawer yn uwch na Chymru. Hefyd yr angen i nodi effaith andwyol tlodi ar lesiant
- amlygu unigrwydd a thrafnidiaeth hefyd ac angen sicrhau bod y negeseuon o'r gweithdy ym mis Ionawr wedi eu hadlewyrchu.

Esboniodd Llio esbonio y byddai'r holiadur ymgynghori hefyd yn syml, yn gofyn a yw pobl yn cytuno â'r prif negeseuon sydd wedi'u hamlygu ond hefyd yn holi am unrhyw sylwadau ychwanegol. Nodwyd hefyd er mwyn ceisio cynnwys pobl yn well i'r dyfodol y bydd bocs ar waelod yr holiadur yn gofyn i unrhyw sydd â diddordeb i fod yn rhan o'r lunio'r Cynllun Llesiant nodi eu manylion cyswllt.

Camau Nesaf:

Trafodwyd Papur 5B a oedd yn amlinellu'r camau nesaf o ran

- Cyhoeddi Asesiad Terfynol
- Cytuno ar Amcanion Llesiant
- Y gwaith o baratoi'r cynllun Llesiant
- Ymgynghoriad statudol
- Cymeradwyo'r Cynllun Llesiant

Nodwyd fod yn rhaid i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn a Byrddau Partneriaid Statudol.

Cytunwyd i ddechrau trafod trefniadau ymgysylltu ar y Cynllun Llesiant drafft arfaethedig y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Llio a'r tîm am eu holl waith.

2	Gweithred:	Trafod trefniadau ymgysylltu'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf
---	------------	----------------------------------------------------------

## 7. 5 Diwrnod mewn ystafell – ffordd wahanol o weithio

Cafwyd cyflwyniad llafar gan Ffion Johnstone ar y gwaith sydd wedi digwydd ar draws y rhanbarth yn y maes iechyd a gofal.

Amlinellwyd cynnwys y peilot lle'r oedd i 20-30 o swyddogion o'r Gorllewin wedi dod at ei gilydd i edrych drwy lygaid staff a chleifion. Rhannwyd y swyddogion i i 4 grŵp sef:

1. Taith y claf o'r ambiwlans, ysbyty ayyb
2. Edrych ar nodiadau rhai defnyddwyr gwasanaeth o'r Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
3. Darparwyr cartrefi preswyl
4. Cyfweliadau gyda Meddyg teulu, Ymgynghorwr a Pherchennog Cartref Nyrsio yn yr ardal

Darganfyddiadau :

- Adborth fod staff yn teimlo yn drist / tan bwysau yn eu swyddi
- Cleifion weithiau yn gweld naw person gwahanol ac wedi dweud yr un stori naw gwaith yn ystod cyfnod yn yr ysbyty
- Adborth fod llawer iawn o gleifion wedi gadael yr ysbyty ac wedi mynd yn syth i gartrefi preswyl heb y posibilrwydd o gynnig gwasanaethau adref.

Roedd adborth yr aelodau fu'n rhan yn bositif iawn gyda swyddogion o fewn y cyrff unigol yn gweld gwerth i'r gwaith.

Nododd Dr Gwynne Jones fod cadeiryddiaeth Simon Smith wedi bod yn allweddol i'r broses 5 diwrnod ac wedi galluogi trafodaethau manwl a chadarnhaol.

Esboniodd Ffion Johnstone fod gwaith pellach yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth o gwmpas wardiau Ysbyty Gwynedd ac ymhlith darparwyr. Cadarnhawyd y byddai'r partneriaid perthnasol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan eto gan gynrychiolaeth o'r Trydydd Sector.

3	Gweithred:	Cynnwys 5 Diwrnod mewn ystafell ar agenda'r cyfarfod nesaf
---	------------	------------------------------------------------------------

## 8. Gohebiaeth

Rhannwyd copïau o ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd.

Mynegwyd pryder am lythyr gan Gomisiynydd yr Heddlu yn nodi na fydd yn mynychu'r Bwrdd yn y dyfodol. Cytunwyd i ddrafftio llythyr yn ymateb i Gomisiynydd yr Heddlu yn nodi siom aelodau statudol y Bwrdd na fydd yn aelod o'r Bwrdd i'r dyfodol, gyda chopi i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

4	Gweithred:	Llythyr i 'w ddrafftio i Gomisiynydd yr Heddlu gyda chopi i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi siom am ei benderfyniad i beidio mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.
---	------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## 9. Unrhyw Fater Arall

Papur Gwyn –

Cytunwyd i gadw ymateb y Bwrdd yn fras heb gynnwys gwasanaethau unigol.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Tynnwyd sylw at drefniadau cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 13 Ebrill, 2017 am 9.30yb yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Camau nesaf – paratoi Cynllun Llesiant Lleol</i></li> </ul>	<b>Papur 5B</b>
7.	5 diwrnod mewn ystafell - ffordd wahanol o weithio	<b>Cyflwyniad – Ffion Johnstone</b>
8.	<p>Gohebiaeth</p> <p>Crynodeb o'r ohebiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyr Comisiynydd yr Heddlu</li> <li>• Llythyr Comisiynydd Pobl Hyn</li> </ul>	<b>Copiau o'r ohebiaeth</b>
9.	<p>Unrhyw Fater Arall:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Papur Gwyn – ymateb gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</li> </ul>	
10.	<p>Trefniadau'r cyfarfod nesaf:</p> <p><i>Dydd Iau, 13 Ebrill 9.30yb – 1.00yh</i></p> <p><i>Cyfarfod estynedig er mwyn cytuno ar amcanion drafft y Bwrdd</i></p>	